

Dull gweithredu arfaethedig CNC ar gyfer rheoleiddio rhyddhau adar hela (ffesantod a phetris coesgoch) yng Nghymru

Dogfen Ymgynghori

Mawrth 2023

Cynnwys

Cynnwys	2
RHAN A: Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn a sut i ymateb iddo	3
Trosolwg.....	3
Pam ein bod yn ymgynghori?	3
Beth rydym yn ymgynghori arno?.....	3
Sut i ymateb	4
RHAN B: Cefndir yr adolygiad	6
Amlinelliad o'r fframwaith cyfreithiol yng Nghymru	6
Beth rydyn ni'n ei wneud nawr: sut mae rhyddhau adar hela yn cael ei reoleiddio yng Nghymru ar hyn o bryd.....	8
Dulliau gwirfoddol a safonau arferion da	9
Ein dull o gynnal yr adolygiad.....	11
RHAN C: Ein hasesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael	14
Graddfa a lleoliadau rhyddhau adar hela yng Nghymru	14
Effeithiau amgylcheddol rhyddhau adar hela	16
Effeithiau economaidd-gymdeithasol saethu anifeiliaid hela yng Nghymru	21
Casgliadau ein hadolygiad	23
Maint y newid sydd ei angen	26
RHAN D: Ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer rheoleiddio rhyddhau adar hela (ffesantod a phetris coesgoch) yng Nghymru o 2024	28

RHAN A: Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn a sut i ymateb iddo

Ymgynghoriad yn cau: 27 Mawrth 2023

Agorwyd yr ymgynghoriad: 20 Mehefin 2023

Trosolwg

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoleiddio rhyddhau ffesantod *Phasianus colchicus* a phetris coesgoch *Alectoris rufa* (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "adar hela") yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CNC baratoi ac ymgynghori ar ddull priodol o ryddhau adar hela yng Nghymru, gyda'r bwriad o roi unrhyw ddull newydd ar waith yn 2023 i ddod i rym ar gyfer tymor rhyddhau adar hela 2024. Yn benodol, gofynnwyd i CNC ystyried y canlynol:

- A oes problem yng Nghymru ac, os felly, beth yw'r raddfa?
- Pa mor effeithiol yw dulliau gwirfoddol presennol?
- Pa gapasiti sydd gennym i reoli unrhyw ddull newydd?

Gofynnwyd i ni argymhell p'un a oes angen newid, a datblygu cynigion ar gyfer dull trwyddedu cymesur os oes angen. Rydym wedi cael ein harwain i ystyried p'un a yw darpariaethau presennol adrannau 14 ac 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn darparu fframwaith cyfreithiol addas ar gyfer unrhyw ddull gweithredu newydd angenrheidiol.

Pam ein bod yn ymgynghori?

Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, rydym wedi datblygu dull gweithredu arfaethedig. Rydym bellach am gael eich barn ar ein cynigion.

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i benderfynu p'un a oes angen ailystyried unrhyw elfennau o'n cynigion. Bydd eich ymatebion felly yn helpu i lywio'r gwaith o reoleiddio rhyddhau adar hela yng Nghymru yn y dyfodol.

Beth rydym yn ymgynghori arno?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar gynigion ar gyfer dull CNC o reoleiddio rhyddhau adar hela estron yng Nghymru. Mae manylion ein cynigion wedi'u nodi yn y ddogfen hon. Darperir deunydd perthnasol arall fel atodiadau gyda dolenni o'r ddogfen hon.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn darparu cyfle i unrhyw un yr effeithir arno gan y cynigion i wneud gorchymyn i ychwanegu ffesantod a phetris coesgoch at Ran 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Cymru) gyflwyno gwrthwynebiadau neu

sylwadau. Felly mae hefyd yn gyfystyr ag ymgynghoriad statudol o dan adran 26(4)(a) o'r Ddeddf honno ar ran Llywodraeth Cymru.

Darllenwch yr wybodaeth yn y ddogfen hon cyn ymateb i'r ymgynghoriad.

Beth nad yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn

Er y gall y materion canlynol ymwneud â saethu anifeiliaid hela, **nid** ydynt o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn:

- Nid yw **pelets plwm** a'u heffaith amgylcheddol o fewn cwmpas y prosiect hwn. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried rhywfaint o dystiolaeth yn ymwneud ag effeithiolrwydd y broses wirfoddol o ddileu pelets plwm yn raddol a chydymffurfio â chyfyngiadau cyfreithiol ar y defnydd o belets plwm.
- Nid yw **moeseg saethu anifeiliaid hela** o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, wrth i ni ystyried effeithiau cymdeithasol a llesiant saethu anifeiliaid hela, rydym wedi cydnabod bod rhai pobl yn anghytuno'n sylfaenol â saethu ysglyfaethau byw ar gyfer chwaraeon.
- Nid yw polisi CNC ar y **defnydd o arfau tanio ar dir a reolir gan CNC** o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Fe wnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o hyn yn 2018 ac ar hyn o bryd nid ydym yn ailadrodd dim o'r gwaith hwnnw nac yn ailedrych ar ei gasgliadau. [Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan CNC.](#)

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein sydd ar gael ar Hwb Ymgynghori CNC, sy'n defnyddio'r offeryn ymgynghori ar-lein 'Citizen Space'. Dechreuwch drwy glicio ar y ddolen isod, a fydd yn eich tywys i gwestiynau'r ymgynghoriad. O bob set o gwestiynau, byddwch yn gallu gweld y ddogfen ymgynghori hon.

Y ffordd orau o ymateb yw drwy'r Hwb Ymgynghori. Fodd bynnag, os na allwch ymateb ar-lein am unrhyw reswm, anfonwch e-bost atom yn:

gamebirds@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ysgrifennwch at Prosiect Rheoleiddio Adar Hela, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Bangor LL57 2DW.

Drwy gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad hwn ym mha bynnag fodd, rydych yn rhoi caniatâd i ni ddadansoddi a chynnwys eich ymateb yn ein canlyniadau. Ar ôl i chi gyflwyno eich ymateb i ni, ni fyddwch yn gallu newid unrhyw un o'ch atebion mwyach. Os byddwch yn ymateb gan ddefnyddio'r offeryn ymgynghori ar-lein ac yn darparu cyfeiriad e-bost, byddwch yn cael derbynneb a gallwch hefyd ofyn am gopi PDF o'ch ymateb. Os byddwch yn ymateb trwy e-bost, dim ond cydnabyddiaeth awtomataidd a gewch.

Rydym yn ymgynghori â chi oherwydd bod eich mewnbwn yn ein helpu i wella ein syniadau a llunio ein gwaith. Mae'n ein galluogi i fod yn fwy effeithiol yn y gwaith rydym yn ei wneud. Rydym yn ymgynghori ar bolisiau a strategaethau newydd neu newidiadau

iddynt, prosiectau megis cynlluniau llifogydd arfaethedig, a mathau penodol o geisiadau am drwyddedau hefyd.

Rydym am i'n proses ymgynghori wella ein gwaith a bod yn fwy hygyrch i chi. Os hoffech gyflwyno sylw ar ein dull, cysylltwch â ni.

E-bostiwch ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffoniwch 0300 065 3000 (Llun – Gwener, 9am – 5pm).

Rhowch eich barn inni

Cliciwch [YMA](#) i fynd i'r ymgynghori ar-lein yn Gymraeg.

Dogfennau CNC perthnasol eraill

Llywiwyd ein hadolygiad gan ddau adroddiad tystiolaeth a gomisiynwyd gan Dr Joah Madden o Brifysgol Caerwysg. Adroddiadau Saesneg yw rhain gyda crynodeb gweithredol yn y Gymraeg.

- Adroddiad Tystiolaeth CNC 680: Patrymau Rhyddhau, Rheoli a Saethu Adar Hela yng Nghymru (Madden, 2023a)
- Adroddiad Tystiolaeth CNC 681: Adolygiad o Effeithiau Ecolegol Rhyddhau a Rheoli Adar Hela yng Nghymru (Madden, 2023b)

Yn ogystal â'r adroddiadau uchod, wrth ddatblygu ein cynigion fe wnaethom gynnal nifer o ddarnau arwahanol o waith yn edrych ar agweddau penodol ar ryddhau adar hela. Er bod y rhain wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer defnydd mewnol, rydym wedi eu rhannu gan eu bod yn rhan o'r rhesymeg dros yr hyn yr ydym yn ei gynnig:

- Atodiad 1: Trwyddedu rhyddhau adar hela yng Nghymru: ein dull arfaethedig o fynd i'r afael â gofynion safleoedd gwarchoddedig statudol
- Atodiad 2: Nodyn tystiolaeth: cyfraddau goroesi adar hela a phatrymau gwasgaru
- Atodiad 3: Ein hasesiad o effeithiau posibl rhyddhau adar hela ar gynefinoedd ac organebau a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Caiff crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan. Bydd hyn yn cynnwys rhestr o'r holl sefydliadau a wnaeth ymateb ond ni fydd yn cynnwys enwau unigolion preifat, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Darllenwch wybodaeth breifatrwydd a diogelu data CNC [YMA](#).

RHAN B: Cefndir yr adolygiad

Amlinelliad o'r fframwaith cyfreithiol yng Nghymru

Rheoleiddio rhyddhau rhywogaethau anfrodorol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn darparu fframwaith cyfreithiol yng Nghymru ar gyfer rheoleiddio rhyddhau rhai rhywogaethau. Mae adran 14 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon rhyddhau i'r gwyllt unrhyw rywogaeth nad yw'n preswyllo fel arfer ym Mhrydain Fawr ac nid yw'n digwydd yn rheolaidd ym Mhrydain Fawr mewn cyflwr gwyllt, neu unrhyw rywogaeth a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 9 i'r Ddeddf, ac eithrio o dan drwydded. Mae Rhan 1 o Atodlen 9 yn rhestru rhywogaethau anfrodorol sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y gwyllt, ond sy'n parhau i fod yn fygythiad cadwraeth i fioamrywiaeth a chynefinoedd brodorol, fel y dylid rheoleiddio unrhyw ryddhau pellach.

Mae'n arfer cyffredin i ffesantod ifanc, ac i raddau llai petris coesgoch, gael eu rhyddhau'n gyntaf i loc (corlan ryddhau), y byddant wedyn yn ei adael, gan wasgaru i gefn gwlad cyfagos. ['Mae'r canllawiau statudol ar gymhwyso adran 14](#) yn cynnwys cyngor ar sefyllfaoedd lle gellir ystyried rhyddhau i loc yn ryddhad i'r gwyllt, ac yn cydnabod y canlynol:

“Gall rhyddhau i'r gwyllt fod yn weithred sengl syml fel bod yr anifail

yn rhydd o unrhyw reolaeth ddynol bellach, rhyddhau i amodau rheoledig a fydd yn parhau i fod yn berthnasol, neu gallai fod yn broses raddedig lle

bydd dylanwad dynol yn lleihau nes bod anifeiliaid yn gwbl hunangynhaliol...”

Caiff CNC ddyroddi trwyddedau i ganiatáu rhyddhau rhywogaethau Atodlen 9 yng Nghymru o dan adran 16(4) o Ddeddf 1981. Gall y trwyddedau hyn fod yn gyffredinol neu'n benodol.

Yng Nghymru, nid yw ffesantod na phetris coesgoch wedi'u rhestru ar hyn o bryd yn Atodlen 9.

Rheoleiddio gweithrediadau a allai fod yn niweidiol o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Mae'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer rheoleiddio gweithgareddau a allai fod yn niweidiol o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac o'u hamgylch.

Mae adran 28E o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion a meddianwyr tir o fewn SoDdGA yng Nghymru gael caniatâd CNC cyn cyflawni, achosi neu ganiatáu i unrhyw weithgaredd a restrir fel gweithrediad sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig (OLDSI) gael ei gyflawni. Yn flaenorol, roedd y rhain yn cael eu hadnabod fel

'gweithrediadau a allai fod yn niweidiol' (PDO) a bydd y dogfennau ar gyfer safleoedd hŷn yn dal i ddefnyddio'r derminoleg hon.

Mae llawer o SoDdGAau yn cynnwys yr OLDSI canlynol: "*Rhyddhau i'r safle unrhyw anifail gwyllt neu ledwyllt, anifail wedi'i fagu mewn caethiwed neu anifail domestig, planhigyn, hedyd, neu ficro-organeb, ac unrhyw organeb a addaswyd yn enetig*". Gall mathau eraill o OLDSI hefyd fod yn berthnasol i weithgareddau rheoli anifeiliaid hela sy'n gysylltiedig â rhyddhau adar hela. Nid oes angen caniatâd SoDdGA ar gyfer gweithgareddau sydd eisoes â math arall o awdurdodiad statudol a gyhoeddwyd yn briodol. Mae hyn oherwydd bod adran 28P(4)(a) o Ddeddf 1981 yn darparu bod gweithredu o dan ganiatâd o'r fath yn esgus rhesymol dros gyflawni'r gweithrediad hwnnw heb hysbysu CNC yn gyntaf o dan adran 28E. Yn y cyfamser, o dan adran 28I o'r Ddeddf, mae proses statudol i unrhyw awdurdod sy'n rhoi unrhyw fath arall o awdurdodiad geisio cyngor CNC mewn perthynas â rheoli ei effeithiau ar SoDdGA, ac er mwyn i'r awdurdod hwnnw roi ystyriaeth i'r cyngor.

Rheoleiddio effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd

Mae safleoedd Ewropeaidd yn safleoedd a ddynodwyd yn wreiddiol o dan gyfarwyddebau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth ac sydd bellach yn cael eu diogelu a'u rheoli o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y cyfeirir atynt fel arfer fel y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae dau fath o safle Ewropeaidd:

- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) – wedi'u dynodi oherwydd adar prin neu adar mudol a'u cynefinoedd
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) – ar gyfer ystod eang o gynefinoedd a rhywogaethau heblaw adar

Mae'r rhan fwyaf o safleoedd Ewropeaidd daearol a dŵr croyw yng Nghymru hefyd yn SoDdGAau, sy'n golygu eu bod yn destun amddiffyniadau cyfreithiol SoDdGA.

Mae safleoedd Ewropeaidd hefyd yn elwa o lefel ychwanegol o amddiffyniad cyfreithiol. Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynllun neu brosiect, ac eithrio'r rhai sy'n gwbl uniongyrchol gysylltiedig â rheoli cadwraeth nodweddion cymhwysu safle Ewropeaidd, neu sy'n angenrheidiol ar ei gyfer, gael ei asesu a dim ond os gellir dangos na fydd yn niweidio nodweddion y safle y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith. Gelwir y broses asesu yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac mae'n berthnasol i ystod eang o benderfyniadau a wneir gan gyrrff statudol, gan gynnwys gweithrediadau y maent yn eu cyflawni eu hunain, a llawer o fathau o drwydded neu ganiatâd y maent yn eu rhoi. Nid yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol i gynlluniau neu brosiectau sy'n digwydd o fewn safleoedd Ewropeaidd yn unig, ond i gynlluniau neu brosiectau y tu allan i safleoedd Ewropeaidd a allai serch hynny effeithio ar y cynefinoedd neu'r rhywogaethau y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer.

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, gall awdurdod gymeradwyo neu awdurdodi cynllun neu brosiect, trwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, dim ond os gall ddangos y gellir diystyru effeithiau ar gyfanrwydd unrhyw safle Ewropeaidd. Mewn geiriau eraill, y faich o brofi yw dangos na fydd y cynllun neu brosiect yn niweidio nodweddion y safle. Os na ellir diystyru effeithiau o'r fath, mae'n bosibl y rhoddir cymeradwyaeth o hyd, ond dim ond os

nad oes atebion amgen boddhaol ar gael ac os yw'r cynllun neu brosiect yn angenrheidiol ar gyfer "*rhesymau hanfodol, sef er budd cyhoeddus tra phwysig*". Os nad yw cynllun neu brosiect yn bodloni'r profion a nodir yn y Rheoliadau Cynefinoedd, yna ni ellir ei ganiatáu.

Yn ogystal â safleoedd Ewropeaidd, mae nifer o safleoedd yng Nghymru wedi'u dynodi'n safleoedd 'Ramsar' o dan y confensiwn rhyngwladol ar warchod gwlyptiroedd. Fel mater o bolisi Llywodraeth Cymru (a'r DU), dylai safleoedd Ramsar gael amddiffyniad tebyg â safleoedd Ewropeaidd. Er mwyn bod yn gryno, mae cyfeiriadau yn y ddogfen ymgynghori hon at safleoedd Ewropeaidd yn gyffredinol hefyd yn cynnwys safleoedd Ramsar.

Dyletswyddau bioamrywiaeth o dan ddeddfwriaeth Cymru

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau perthnasol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth ac yn gosod dyletswyddau ar gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys CNC, Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

Mae adran 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, mewn ymgynghoriad ag CNC, lunio a chyhoeddi rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd â "*phwysigrwydd pennaf ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru*" (rhestrau adran 7) ac mae'n cynnwys dyletswyddau penodol sy'n ymwneud â'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a gynhwysir.

Mae adran 5 o'r Ddeddf yn nodi mai diben cyffredinol CNC yw "*ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy mewn perthynas â Chymru*" a "*chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'u cyflawni mewn modd priodol*".

Fel awdurdod cyhoeddus, mae'n ofynnol i CNC o dan adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 "*geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy wneud hynny hybu cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol*". Wrth wneud hynny, mae CNC o dan ddyletswydd ychwanegol yn rhinwedd adran 6(5)(a) i "*roi sylw*" i restrau a gyhoeddir o dan adran 7 o'r Ddeddf o rywogaethau a chynefinoedd â "*phwysigrwydd pennaf ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru*".

Mae adran 7(3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i "*gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organebau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir mewn unrhyw restr a gyhoeddir o dan yr adran hon*" ac "*annog eraill i gymryd camau o'r fath*". Wrth wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru "*gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy*".

Beth rydyn ni'n ei wneud nawr: sut mae rhyddhau adar hela yn cael ei reoleiddio yng Nghymru ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, nid yw ffesantod na phetris coesgoch wedi'u rhestru ar Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y gallant gael eu rhyddhau'n gyfreithlon i'r gwyllt heb fod angen trwydded neu ganiatâd arall.

Yr unig amgylchiadau lle mae CNC ar hyn o bryd yn rheoleiddio rhyddhau adar hela yw fel a ganlyn:

- ar dir lle mae CNC ei hun yn berchennog neu'n rheolwr y tir
- lle byddai'r adar yn cael eu rhyddhau o fewn SoDdGA

Ni chaniateir magu, rhyddhau na saethu adar hela ar dir a reolir gan CNC. Lle cynigir rhyddhau adar hela o fewn ffiniau SoDdGA lle mae rhyddhau adar hela wedi'i gynnwys ar y rhestr o weithrediadau sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig ar y safle hwnnw (rhestr OLDSI), mae angen caniatâd CNC. Wrth ystyried p'un a ddylid rhoi caniatâd SoDdGA (a ph'un a ddylid gosod amodau), mae'n ofynnol hefyd i CNC o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ystyried yr effaith bosibl ar unrhyw safle Ewropeaidd ac ni chaiff roi caniatâd oni bai y gellir diystyru effeithiau ar nodweddion safle Ewropeaidd – os oes angen, trwy gymhwyso amodau.

Yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r DU, mae unrhyw un sy'n cadw 50 neu fwy o ddofednod (gan gynnwys adar hela) yn destun cofrestriad dofednod gorfodol gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) o fewn mis i gadw'r adar hynny. Anogir y rhai sy'n cadw llai na 50 o adar i gwblhau cofrestriad gwirfoddol.

Yn ystod achosion o glefyd, gall rhyddhau adar hela fod yn destun rheoliadau ychwanegol penodol. Er enghraifft, mewn ymateb i'r achosion presennol o fflw adar pathogenedd uchel (HPAI), mae nifer o fesurau rheoleiddio, gan gynnwys gorchmynion cadw dan do, wedi'u cymhwyso, sydd â'r potensial i gyfyngu ar ryddhau adar hela dros dro.

Dulliau gwirfoddol a safonau arferion da

Mae sefydliadau cefn gwlad, saethu a rheoli anifeiliaid hela wedi datblygu ystod o godau arferion da a chanllawiau eraill, y mae llawer ohonynt yn canolbwyntio ar sicrhau cynaliadwyedd a manteision bioamrywiaeth.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym wedi ystyried p'un a allai dulliau gwirfoddol fod yn ddewis arall yn lle rheoleiddio.

Er enghraifft, mae'r [Cod Arferion Saethu Da](#) yn cynnwys saethu, prosesu a defnyddio anifeiliaid hela, yn ogystal â rheoli cyrchoedd hela, magu a rhyddhau anifeiliaid hela, a rheoli ysglyfaethwyr. Mae ganddo ddwy haen o safonau, sef y rhai mae'n "rhaid" eu dilyn "i gyflawni saethu cynaliadwy" ond sydd nid o reidrwydd yn rhwymedigaethau cyfreithiol, a'r rhai y "dylent" gael eu cynnal "er mwyn cyflawni arferion gorau, ac y byddai angen cyfiawnhau unrhyw wyriad oddi wrthynt".

Mae'r cod yn dechrau gyda phum "Rheol Aur", ac un ohonynt yw:

"2. Rhaid i reolwyr cyrchoedd hela ymdrechu i wella cadwraeth bywyd gwyllt a chefn gwlad"

Mae adran 5 o'r cod ('Rheoli Cyrchoedd Hela') yn cynghori: "Dylai rheolwyr cyrchoedd hela fod yn ymwybodol o SoDdGAau a chynefinoedd sensitif eraill ar eu tir a dylent gysylltu â pherchennog y tir a'r awdurdodau statudol perthnasol i sicrhau eu bod yn osgoi gweithgareddau a allai fod yn niweidiol." Er bod yr adran hon yn ymdrin â saethu yn

hytrach na rhyddhau a rheolaeth gysylltiedig, mae'n amlygu'r angen i gymryd camau i osgoi effeithiau negyddol ar safleoedd dynodedig, er nad fel elfen orfodol.

Mae adran 7 o'r cod ('Rhyddhau Anifeiliaid Hela') yn cynghori y "*dyla*" cyrchoedd hela ddilyn canllawiau'r Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt ar gyfer rhyddhau adar hela yn gynaliadwy, y mae'n cyfeirio atynt fel "*synnwyr y fawd*". Mae'n cynghori fel a ganlyn: "*Ile mae cyrchoedd hela yn uwch na'r dwyseddau a argymhellir, dylent allu dangos nad yw eu hamgylchiadau penodol a'u trefn reoli yn niweidio fflora a ffawna'r coetir yn sylweddol.*"

Mae'r [Canllawiau ar gyfer Rhyddhau Adar Hela yn Gynaliadwy](#), a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt, yn canolbwyntio'n benodol ar ryddhau ffesantod a phetris coesgoch. Maent yn seiliedig ar ymchwil helaeth ac wedi'u datblygu i leihau difrifoldeb a hirhoedledd yr effeithiau ar safleoedd rhyddhau ac o'u cwmpas ac i wneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer buddion amgylcheddol o reolaeth gysylltiedig. Maent yn nodi'r trothwyon uchaf a argymhellir ar gyfer rhyddhau ffesantod mewn corlannau coetir, gyda chyfyngiad dwysedd o 1,000 o adar fesul hectar o gorlan rhyddhau ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn sensitif, a chyfyngiad dwysedd o 700 o adar fesul hectar o gorlan rhyddhau ar gyfer coetir hynafol ac ardaloedd eraill mwy sensitif. Anogir cyrchoedd hela i osgoi gosod corlannau mewn ardaloedd arbennig o sensitif neu yn agos atynt, ac i gael cyngor arbenigol os ydynt yn ansicr.

Mae'r canllawiau hefyd yn mynnu na ddylid defnyddio mwy nag un rhan o dair o'r coetir sydd ar gael (gan gynnwys prysgwydd) lle ceir buddiant mewn anifeiliaid hela ar gyfer corlannau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod digon o goetir addas lle gellir rheoli cynefinoedd yn fuddiol i wrthbwysu unrhyw effeithiau negyddol o'r rhyddhau ei hun ac, yn ddelfrydol, sicrhau budd bioamrywiaeth.

Mae canllawiau penodol wedi'u cynnwys ar gyfer rhyddhau petris ar dir fferm, gan gynnwys lleoli corlannau rhyddhau a bwydydd anifeiliaid i ffwrdd o ardaloedd sensitif. Mae'r canllawiau hefyd yn darparu canllawiau ychwanegol, gan gynnwys rheoli coetir a thir fferm, amseriad rhyddhau, a rheoli gwasgariad i atal adar rhag symud i ardaloedd sensitif.

Mae'r canllawiau yn ymhelaethu ar y 12 [Egwyddor Rheoli Anifeiliaid Hela yn Gynaliadwy](#) lefel uchel.

Gall cyrchoedd hela hefyd gofrestru'n wirfoddol i [gynllun British Game Assurance \(BGA\)](#). Bwriad y cynllun yn bennaf yw sicrhau ansawdd helgig Prydeinig ond mae'n gwneud hynny trwy ddylanwadu ar bob cam o'r cylch saethu anifeiliaid hela, gan gynnwys eu deor a'u magu a'r saethu ei hun (gan gynnwys rhyddhau a rheoli anifeiliaid hela), gyda safonau penodol ar gyfer pob cam.

Mae safonau BGA ar gyfer cyrchoedd hela yn cynnwys nifer o safonau sy'n benodol i'r broses ryddhau, gan gynnwys cadw at ganllawiau yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt ar gyfer rhyddhau adar hela yn gynaliadwy. Mae safon benodol sy'n cyfeirio at ganllaw yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt ar ddwysedd rhyddhau wedi'i chynnwys fel rhif safonol 6.6, er bod hwn wedi'i liwio mewn melyn, gan ddynodi "*Argymhelliad – gall hyn ddod yn safon orfodol yn y dyfodol*". Mae'r safon hon hefyd wedi'i marcio ag eicon 'dagr', sy'n dynodi safon "*y gall trwyddedigion wneud cais am rannirymiad o dan amgylchiadau penodol.*" Nid yw'n glir p'un a fydd yr opsiwn ar gyfer

“*rhanddirymiad*” yn aros unwaith y daw’r safon yn orfodol neu, o ystyried nad yw’n ofyniad llym ar hyn o bryd, p’un a gafodd yr opsiwn ei gynnwys yn sgil rhagweld y byddai’n dod yn orfodol. Er bod y term “trwyddedai” yn cael ei ddefnyddio, deallwn fod hyn yn cyfeirio at wneud cais am rhanddirymiad mewn perthynas ag archwilio o dan y BGA yn hytrach nag unrhyw fath o drwydded statudol.

Mae cyrchoedd hela sy’n hysbysebu ar [wefan Guns on Pegs](#), ac sydd wedi ymrwymo i’r cynllun ac sy’n gallu dangos eu bod yn bodloni ei safonau, â’r hawl i arddangos bathodyn “cyrch hela ag arferion gorau”. Gellir archwilio cyrchoedd hela i weld p’un a ydynt yn cydymffurfio.

Oherwydd ei fod yn wasanaeth tanysgrifio yn unig yn flaenorol, ac oherwydd y gallai buddion cynllun BGA fod o’r diddordeb mwyaf i gyrchoedd hela masnachol sy’n hysbysebu, mae’n debygol mai’r cyrchoedd hela mwyaf fu’r rhan fwyaf o aelodaeth y cynllun. Fodd bynnag, gallai cyflwyno cynllun aelodaeth cyswllt rhad ac am ddim yn ddiweddar gyda set gryno o safonau ar gyfer cyrchoedd hela sy’n rhyddhau llai na 1,500 o adar y flwyddyn arwain at aelodaeth ehangach.

Ein dull o gynnal yr adolygiad

Fe wnaethom gomisiynu Dr Joah Madden o Brifysgol Caerwysg i gynnal asesiad o raddfa a lleoliad rhyddhau adar hela yng Nghymru gan ddefnyddio data o gofrestr dofednod APHA a thystiolaeth arall sydd ar gael. Gofynasom hefyd i Dr Madden asesu i ba raddau y gallai’r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael ddangos lefelau cydymffurfio â dulliau gwirfoddol yn ogystal â chofrestriad gorfodol â chofrestr dofednod APHA. Mae’r adroddiad hwn (Madden, 2023a) ar gael fel rhan o’r ymgynghoriad hwn.

Cyhoeddwyd tri adolygiad arwyddocaol yn ystyried y dystiolaeth o natur a graddau effeithiau rhyddhau adar hela yn y DU yn 2020:

[Madden J.R. a Sage, R.B. \(2020\). Ecological Consequences of Gamebird Releasing and Management on Lowland Shoots in England: A Review by Rapid Evidence Assessment for Natural England and the British Association of Shooting and Conservation. Natural England Evidence Review NEER016. Peterborough: Natural England.](#)

[Mason, L.R., Bicknell, J.E., Smart, J. a Peach, W.J. \(2020\). The impacts of non-native gamebird release in the UK: an updated evidence review. RSPB Research Report No. 66. RSPB Centre for Conservation Science, Sandy, UK.](#)

[Sage, Rufus B., Hoodless, Andrew N., Woodburn, Maureen I. A., Draycott, Roger A. H., Madden, Joah R., ac eraill \(2020\). Summary review and synthesis: effects on habitats and wildlife of the release and management of pheasants and red-legged partridges on UK lowland shoots. Wildlife Biology, 2020\(4\). Nordic Board for Wildlife Research.](#)

Er bod yr adolygiadau hyn naill ai’n adolygiadau ledled y DU, neu’n canolbwyntio ar Loegr, fe wnaethant ystyried tystiolaeth o bob rhan o’r DU a thu hwnt, a theimlwn eu bod yn debygol o fod yn berthnasol iawn i’r adolygiad hwn. Roedd y tri adolygiad hyn i gyd yn ystyried yr un dystiolaeth yn fras ond yn defnyddio methodolegau gwahanol.

Fodd bynnag, roeddem yn ymwybodol ei bod yn debygol bod tystiolaeth newydd wedi'i chyhoeddi ers cyhoeddi'r adolygiadau hyn, ac y gallai fod tystiolaeth ar gael hefyd nad oedd wedi'i chynnwys oherwydd ei bod yn benodol i Gymru. Felly, cynaliasom alwad chwe wythnos am dystiolaeth rhwng Gorffennaf ac Awst 2022 lle gwahoddwyd pobl i gyflwyno unrhyw dystiolaeth berthnasol nad oedd wedi'i hystyried yn flaenorol. Gofynasom yn benodol am dystiolaeth a fyddai'n gwella ein dealltwriaeth o'r canlynol:

- Graddfa a dosbarthiad rhyddhau adar hela yng Nghymru ac unrhyw dueddiadau cysylltiedig
- Effeithiau ecolegol rhyddhau adar hela a'r ffactorau sy'n cyfrannu at yr effeithiau hynny
- Effeithiau ecolegol gweithgareddau rheoli sy'n ymwneud â saethu anifeiliaid hela yng Nghymru
- Effeithiau economaidd-gymdeithasol saethu anifeiliaid hela yng Nghymru

Fe wnaethom egluro nad oeddem yn chwilio am dystiolaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Effeithiau amgylcheddol y defnydd o beledi plwm
- P'un a ddylid caniatáu magu adar hela neu weithgareddau saethu eraill ar ystâd CNC
- Moeseg saethu anifeiliaid hela

Gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno tystiolaeth wyddonol neu anecdotaidd ond, gan nad oedd hwn yn ymgynghoriad, esboniasom nad oeddem yn ceisio barn neu safbwyntiau.

Cawsom ymatebion gan y sefydliadau canlynol:

- Partneriaeth Aim to Sustain
- Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid
- Animal Aid
- Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
- British Game Assurance
- Y Gynghrair Cefn Gwlad
- Ymddiriedolaeth Gwarchod Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt Cymru
- Y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon
- Cymdeithas Genedlaethol y Ciperiaid
- RSPB Cymru

Cawsom bedwar cyflwyniad hefyd gan unigolion, pob un yn ymwneud â Chymru. Roedd tri o'r rhain gan bobl a oedd yn byw a/neu'n gweithio ger cyrchoedd hela ac roedd un gan berchennog cyrch hela.

Nododd ein galwad am dystiolaeth nifer o bapurau a adolygwyd gan gymheiriaid nad oeddent wedi'u hystyried gan adolygiadau 2020, ac roedd yn ymddangos bod rhai ohonynt yn berthnasol iawn ac wedi'u cyhoeddi ar ôl 2020. Roedd y cyflwyniadau hefyd yn cynnwys cryn dipyn o lenyddiaeth "lwyd" arall, gan gynnwys erthyglau, blogiau ac adroddiadau, yn ogystal â thystiolaeth bersonol.

Ar ôl i'r galwad am dystiolaeth ddod i ben, comisiynwyd asesiad pellach gennym gan Dr Madden yn gofyn iddo wneud y canlynol:

- Archwilio Madden a Sage (2020), Mason ac eraill (2020), a Sage ac eraill (2020) a darparu cymhariaeth o'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y tri adolygiad.
- Nodi prif ganfyddiadau'r tri adolygiad, gan amlygu meysydd sy'n gyffredin ac yn amrywio, gan ystyried unrhyw gyffredinedd/gwahaniaethau yn eu cwmpas.
- Asesu cryfder y dystiolaeth ar gyfer pob un o'r prif ganfyddiadau.
- Asesu'r dystiolaeth wyddonol a gyflwynwyd i'n galwad am dystiolaeth.
- Asesu i ba raddau y mae'r dystiolaeth ychwanegol (a chanfyddiadau'r adroddiad ar raddfa a lleoliad rhyddhau adar hela yng Nghymru) yn cefnogi neu'n herio canfyddiadau allweddol adolygiad 2020 o ran Cymru a/neu'n arwain at unrhyw gasgliadau newydd.

Rydym wedi cael ein harwain gan ganfyddiadau'r adroddiad hwn (Madden, 2023b), yr ydym wedi'i ddarparu fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Buom yn ystyried tystiolaeth bersonol a thystiolaeth yn ymwneud ag effeithiau economaidd-gymdeithasol saethu anifeiliaid hela a gyflwynwyd mewn ymateb i'n galwad am dystiolaeth. Roeddem yn ofalus i ystyried tystiolaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol. Buom hefyd yn edrych am unrhyw dystiolaeth ychwanegol a allai ddangos pa mor effeithiol y gallai dulliau gwirfoddol fod wrth reoli effeithiau posibl.

Rydym wedi archwilio'r fframweithiau cyfreithiol presennol yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau a phwerau perthnasol.

Er mwyn llywio ein cynnig, fe wnaethom ddatblygu dull o ymdrin â safleoedd gwarchoddedig statudol, a oedd yn ystyried sut y byddai ein cynigion yn gyntaf yn bodloni gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd mewn perthynas â rheoli'r effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd, ac yn ail y darpariaethau cyfatebol o dan adran 28I o Ddeddf 1981 mewn perthynas ag effeithiau posibl ar SoDdGAau. Disgrifir y dull hwn yn Atodiad 1.

Gwnaethom hefyd gynnal asesiad cyflym o'r dystiolaeth yn ymwneud â goroesiad adar hela a'u gwasgariad. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

Gwnaethom hefyd gynnal asesiad lefel uchel o oblygiadau rhyddhau adar hela ar gynefinoedd a rhywogaethau a restrir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) lle buom yn ystyried effeithiau tebygol adar hela, i ba raddau y mae'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig yn darparu amddiffyniad, a, lle y nodwyd effeithiau tebygol, i ba raddau y gallai dulliau arferion gorau sefydledig ddarparu mesurau lliniaru. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

Mae ein hadolygiad wedi arwain at ddatblygu'r dull arfaethedig o reoleiddio rhyddhau adar hela a nodir yn Rhan D isod. Dyma'r cynnig y teimlwn sy'n darparu'r mesurau diogelu angenrheidiol ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru i'n galluogi ni, a Gweinidogion Cymru, i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol wrth hefyd fodloni ein hegwyddorion rheoleiddio o ran bod yr opsiwn rheoleiddio lleiaf cyfyngol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn adolygu'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn ystyried p'un a oes angen i ni ailedrych ar unrhyw elfennau o'n cynnig a gwneud newidiadau cyn ei roi ar waith.

RHAN C: Ein hasesiad o'r dystiolaeth sydd ar gael

Graddfa a lleoliadau rhyddhau adar hela yng Nghymru

Fe wnaethom gomisiynu asesiad o raddfa a lleoliadau rhyddhau yng Nghymru gan Dr Joah Madden (Madden, 2023a). Mae'r adroddiad llawn ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Ystyriodd yr asesiad ddata o bum ffynhonnell ddata:

- a) Arolygon Adar y Gaeaf ac Adar sy'n Nythu gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
- b) Prosiect gwyddoniaeth dinasyddion Road Lab, sy'n coladu adroddiadau am ladd bywyd gwyllt ar y ffordd
- c) Gwefan hysbysebu fasnachol Guns on Pegs ar gyfer cyrchoedd hela
- d) Cofrestr dofednod APHA, sy'n orfodol i'r rhai sy'n dal 50 neu fwy o ddofednod, gan gynnwys adar hela
- e) Adroddiad Effaith Economaidd ac Amgylcheddol Saethu at Ddibenion Helwriaeth (PACEC, 2014)

Canfu'r adroddiad fod cydymffurfedd â chofrestru dofednod APHA gorfodol ymhlith cyrchoedd hela yng Nghymru yn ymddangos yn isel, fel y gwnaeth yng ngweddill y DU. Er ei bod yn bosibl amcangyfrif nifer y cyrchoedd hela a nifer yr adar a ryddhawyd sydd ar goll o'r cofnodion hyn yn fras, nid oedd yn bosibl dod i gasgliadau dibynadwy ynghylch lleoliad na maint yr adar coll hynny sydd wedi'u rhyddhau.

Oherwydd bod cydymffurfedd â chofrestr APHA yn ymddangos yn wael, ac yn absenoldeb mecanweithiau adrodd eraill, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y data a oedd ar gael ar gyfer Cymru o'r ffynhonnell hon yn gyfyngedig ac yn anghyflawn. Roedd angen felly i groesgyfeirio nifer o setiau data anghyflawn neu 'anniben' mewn ffordd arall i wneud amcangyfrifon mwy dibynadwy. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrifon hyn yn destun gwallau mawr ac roedd yr adroddiad yn rhybuddio y gallent ond darparu "*darlun cyffredinol amrwd o'r gweithgarwch ledled Cymru*".

Dywedodd yr adroddiad fod cofrestr dofednod APHA yn nodi bod tua 4.1% o'r adar hela sydd wedi'u cofrestru yn y DU yn cael eu cadw yng Nghymru (581,176 allan o 13,673,562 o adar). Gan ddefnyddio ffynonellau data ychwanegol i wneud iawn am y tangofnodi ymddangosiadol, amcangyfrifodd yr adroddiad fod rhwng 0.8 a 2.3 miliwn o adar hela yn cael eu rhyddhau yng Nghymru bob blwyddyn ar hyn o bryd, gan rhwng 171 a 421 o gyrchoedd hela.

Ffesantod yw'r rhan fwyaf o'r adar hela sy'n cael eu rhyddhau yng Nghymru, gyda phetris yn cyfrif am ddim ond 10.3% o adar hela sydd wedi'u cofrestru gydag APHA. Mae hyn yn cymharu â 32.1% yng ngweddill y DU. Rhagwelir mai'r rheswm am hyn yw'r diffyg cymharol o gynefin petris addas yng Nghymru.

Er bod ansawdd y dystiolaeth yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau manwl ynghylch dosbarthiad gofodol y weithred o ryddhau, mae arwyddion clir bod achosion o ryddhau yng Nghymru wedi'u crynhoi yn nwyrain a gogledd-ddwyrain y wlad, yn enwedig yng ngogledd Powys a Sir Ddinbych. Mae tystiolaeth hefyd o grynodiadau mwy lleol, gan gynnwys yn Ynys Môn a rhannau o Sir Benfro. Roedd yn ymddangos nad oedd llawer o achosion o ryddhau mewn ardaloedd ucheldirol yn bennaf, fel Eryri a Bannau Brycheiniog. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd diffyg cynefin addas.

O ystyried y data a gafwyd o gofrestr dofednod APHA a derbyn bod y data hwn yn debygol o fod yn anghyflawn, gwnaeth yr adroddiad amcangyfrifon o gyfran y cyrchoedd hela a oedd yn debygol o fod yn gweithredu o fewn safleoedd gwarchoddedig, neu o fewn 500 metr iddynt. Amcangyfrifwyd bod tua 30% o gyrchoedd hela o fewn 500 metr i SoDdGA, tra oedd efallai 16% a 4%, yn y drefn honno, o fewn y pellter hwnnw i ACA neu AGA.

Ymddengys fod maint y cyrchoedd hela yn weddol debyg i weddill y DU. Fodd bynnag, er yr amcangyfrifir bod maint canolrifol cyrch hela yr un fath ag yng ngweddill y DU (1,000 o adar wedi'u rhyddhau), mae'r cymedr yn uwch (4,692 o gymharu â 3,908). Mae hyn yn awgrymu y gallai'r gogwydd a welir mewn mannau eraill, gyda llawer o gyrchoedd hela bach yn rhyddhau niferoedd bach o adar ac ychydig o gyrchoedd hela mawr iawn yn rhyddhau niferoedd mawr iawn, fod hyd yn oed yn amlycach yng Nghymru.

Yn ôl yr adroddiad, dywedodd 47% o gyrchoedd hela Cymru a gofrestrwyd gan APHA yn 2019 eu bod yn dal llai na 1,000 o adar i'w rhyddhau a dywedodd 12% eu bod yn dal dros 10,000 o adar. Roedd y nifer fwyaf o adar a gofrestrwyd gan un cyrch hela yng Nghymru yn 120,750, o gymharu â 255,500 yn y cyrch hela cofrestredig mwyaf yng ngweddill y DU.

Un deg saith y cant oedd cyfran y cyrchoedd hela a gofnodwyd sy'n hysbysebu ar wefan Guns on Pegs fel 'Cyrchoedd Hela Arferion Gorau' yng Nghymru, sy'n uwch nag mewn ardaloedd eraill yn y DU (12%). Mae'r rhain yn gyrchoedd hela sydd wedi ymuno â chynllun British Game Assurance. Fodd bynnag, mae'r rhain yn dal i gyfrif am leiafrif o gyrchoedd hela.

Prin iawn oedd y dystiolaeth y gellid ei defnyddio i amcangyfrif lefelau cydymffurfedd ag arferion gorau ar ddwysedd rhyddhau. Roedd y dwyseddau a adroddwyd yn yr astudiaethau sydd ar gael (yr oedd pob un ohonynt yn Lloegr) yn dangos y gallai cydymffurfedd â chanllawiau'r Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwylt fod yn isel, sef llai na 15% o gydymffurfedd. Fodd bynnag, efallai na fydd yr astudiaethau hyn yn sampl gadarn a chynrychioliadol. Byddai angen astudiaeth bellach a data gwell i ddeall yn hyderus lefelau cydymffurfedd â chanllawiau arferion gorau yng Nghymru.

Nododd yr adroddiad anhawster penodol wrth nodi data hirdymor ar gyfer patrymau rhyddhau adar hela yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn anodd nodi tueddiadau penodol yng Nghymru. Roedd y darlun ar gyfer y DU gyfan efallai yn gliriach.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at yr aflonyddwch a achosir gan gyfyngiadau mewn ymateb i COVID-19 a fflw adar pathogenedd uchel (HPAI), gan arwain at newidiadau mewn arferion saethu dros y blynyddoedd diwethaf. Yng ngoleuni hyn, ac ansicrwydd ynghylch sut y bydd y diwydiant yn ymateb, gall fod yn anodd rhagweld tueddiadau'r dyfodol yn hyderus.

Mae'r adroddiad yn nodi tri bwlch gwybodaeth allweddol fel a ganlyn:

- Yr angen am gofnodion mwy dibynadwy o leoliad a maint achosion o ryddhau yng Nghymru.
- Yr angen am fwy o fanylion am reoli adar ar ôl eu rhyddhau – yn enwedig yn agos at safleoedd ecolegol bwysig neu ardaloedd gwarchoddedig.
- Yr angen i ddeall yn well yr effeithiau ar ymddygiad rheolwyr saethu heddiw ac yn y dyfodol wrth ymateb i COVID-19 a ffliw adar pathogenedd uchel (HPAI).

Cadarnhaodd yr adroddiad amcangyfrifon cynharach o ganran adar hela'r DU a ryddhawyd yng Nghymru ac mae'n rhoi amcangyfrif bras o'r niferoedd tebygol o adar hela a ryddhawyd yng Nghymru, er bod ansicrwydd sylweddol oherwydd cyfyngiadau'r data. Yn bwysig, daeth i'r casgliad bod patrwm rhyddhau adar hela yng Nghymru yn weddol debyg i weddill y DU, gan olygu y gellid dod i gasgliadau sy'n berthnasol i Gymru o'r corff ehangach o dystiolaeth yn ymwneud â'r DU.

Effeithiau amgylcheddol rhyddhau adar hela

Wrth asesu effeithiau amgylcheddol tebygol rhyddhau adar hela yng Nghymru, gwnaethom ystyried canfyddiadau'r tri adolygiad allweddol a gyhoeddwyd yn 2020 a chwilio am dystiolaeth ychwanegol na chafodd ei hystyried gan yr adolygiadau hynny. Gwahoddwyd tystiolaeth ychwanegol gennym drwy alwad cyhoeddus am dystiolaeth a chomisiynwyd adolygiad o'r holl dystiolaeth a oedd ar gael, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y gellid ei chymhwyso i Gymru.

Mae'r adran hon yn grynodedb a dylid ei darllen ar y cyd â thri adolygiad 2020 a Madden (2023b).

Canfyddiadau adolygiadau 2020

Roedd cysondeb cryf a chadarn yng nghasgliadau'r tri adolygiad hyn, er bod y cwmpas, a'r ffordd y cafodd y canfyddiadau eu grwpio a'u cyflwyno, weithiau'n wahanol.

Nid oedd pob adolygiad yn ceisio priodoli canlyniad cadarnhaol neu negyddol yn benodol ar gyfer pob effaith. Fodd bynnag, yn fras, canfu'r adolygiadau fod effeithiau negyddol yn tueddu i fod yn gysylltiedig â phresenoldeb yr adar hela eu hunain a ryddhawyd, tra oedd effeithiau cadarnhaol yn tueddu i ddod o weithgareddau rheoli cysylltiedig. Oherwydd natur gymhleth ecosystemau, roedd p'un a oedd rhai effeithiau'n gadarnhaol neu'n negyddol weithiau'n fater o farn. Er enghraifft, gallai bwydo atodol ar gyfer adar hela gynnal adar brodorol a mamaliaid bach ond gallai hefyd arwain at gynnydd yn niferoedd cnofilod neu ysglyfaethwyr a gallai porthwyr fod yn ffocws ar gyfer trosglwyddo clefydau.

Roedd cytundeb cyffredinol bod corff sylweddol o dystiolaeth yn bodoli yn ymwneud ag effeithiau (cadarnhaol ar y cyfan) gweithgareddau rheoli ystad sy'n gysylltiedig â rhyddhau adar hela. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys creu, cadw a rheoli cynefinoedd, darparu cynydau gorchudd a bwydo atodol, a rheolaeth gyfreithiol ar ysglyfaethwyr cyffredinol. Roedd yr effeithiau cadarnhaol hyn yn debygol o gael eu gweld hyd at raddfa tirwedd.

Roedd yr adolygiadau'n cytuno'n gyffredinol bod tystiolaeth resymol o nifer o effeithiau uniongyrchol gan adar hela, a oedd yn tueddu i gael effeithiau negyddol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfoethogi pridd a dŵr, aflonyddwch ffisegol i briddoedd, a phori a allai effeithio ar

ddiddordeb bioamrywiaeth. Roedd yr effeithiau hyn yn fwyaf amlwg ar safleoedd rhyddhau, neu'n agos atynt, ac roeddent yn arbennig o amlwg lle canfuwyd dwyseddau rhyddhau uchel.

Canfu'r adolygiadau lai o dystiolaeth o drosglwyddo clefydau a pharasitiaid o adar hela i famaliaid bach eraill. Roedd effeithiau posibl eraill, yn enwedig y rhai a oedd yn cael effeithiau ar raddfeydd ehangach, hefyd yn tueddu i gael eu cefnogi gan dystiolaeth wannach neu fwy amwys. Roedd y rhain yn cynnwys effeithiau rhyddhau adar hela ar helaethrwydd ysglyfaethwyr a'r goblygiadau ar gyfer bywyd gwyllt brodorol, effaith cystadleuaeth am adnoddau rhwng adar hela sy'n cael eu rhyddhau a bywyd gwyllt brodorol, ac adar hela yn ysglyfaethu'n uniongyrchol ar fertebratau bach.

Nododd yr adolygiadau lai o dystiolaeth, neu dystiolaeth wannach, ar gyfer effeithiau arferion saethu megis aflonyddwch a achosir gan ynnau a churwyr neu saethu rhywogaethau nad ydynt yn darged yn ddamweiniol. Yn yr un modd, roedd sail dystiolaeth gymharol isel ar gyfer effeithiau erledigaeth anghyfreithlon o rywogaethau gwarchoddedig ar boblogaethau adar ysglyfaethus rhanbarthol. Er ei bod yn amlwg yn effaith negyddol, canfu'r adolygiadau fod tystiolaeth yn aml yn deillio o erlyniadau ac fel arfer nid oedd yn rhoi digon o fanylion am y cymhellant y tu ôl i'r drosedd. Roedd yn anodd gwahanu troseddau yn ymwneud ag adar hela a ryddhawyd oddi wrth y rhai a oedd yn ymwneud â rheoli anifeiliaid hela gwyllt.

Roedd cytundeb cyffredinol bod llawer o effeithiau negyddol wedi'u cysylltu'n agos â dwysedd adar hela, naill ai yn y gorlan ryddhau neu yn yr ardal gyfagos, yn enwedig lle'r oedd adar yn ymgynnull o amgylch porthwyr. Roedd yr effeithiau hyn yn tueddu i ddod yn fwy aciwt a pharhaus lle'r oedd adar yn cael eu rhyddhau ar ddwysedd o fwy na 700–1,000 o adar fesul hectar. Roedd lleoliad y rhyddhau a maint cyffredinol yr achosion o ryddhau hefyd yn ffactorau a oedd yn debygol o gael dylanwad sylweddol ar ddirifoldeb yr effaith.

Roedd yr adroddiadau'n nodi, i raddau mwy neu lai, fod gan reolaeth ystad gadarnhaol y potensial i wneud iawn am effeithiau negyddol rhyddhau. Fodd bynnag, roedd hyn yn amodol ar gyrchoedd hela'n defnyddio arferion da, o ran rheoli rhyddhau mewn modd cynaliadwy ac o ran cyflawni lefelau priodol o reoli cynefinoedd.

Mason ac eraill (2020) oedd yr unig un o dri adolygiad 2020 i ystyried agweddau cymdeithasol ac economaidd. Cyfeiriodd at ganfyddiadau [adroddiadau Public and Corporate Economic Consultants \(PACEC\)](#) a'r feirniadaeth a gyflawnwyd gan [Cormack a Rotherham \(2014\)](#) ar gyfer y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon, gan ystyried y posibilrwydd na fydd y naill adroddiad na'r llall yn gwbl ddiuedd. Yn fras, gwnaethant ddweud fod y dystiolaeth yn awgrymu effaith economaidd gadarnhaol ar y cyfan, er bod llai o gytundeb ar raddfa'r buddion. Roeddent hefyd yn cydnabod bod tystiolaeth o effeithiau economaidd negyddol o effeithiau fel difrod i gnydau. Roedd Mason ac eraill (2020) hefyd yn ystyried effaith bosibl bwyta plwm ar bobl, trosglwyddo clefydau i bobl, a rôl adar hela estron mewn gwrthdrawiadau ffyrdd a damweiniau hedfan.

Nododd pob un o dri adroddiad 2020 fylchau tystiolaeth tebyg neu feysydd lle gellid gwella'r dystiolaeth, er enghraifft pori ac addasu cynefinoedd gan adar hela.

Ystyried tystiolaeth newydd a'r sefyllfa yng Nghymru

Asesodd yr adolygiad a gomisiynwyd gennym (Madden, 2023b) unrhyw dystiolaeth newydd nad oedd wedi'i hystyried o'r blaen gan dri adolygiad 2020, gan gynnwys tystiolaeth ac ymatebion sefydliadol a gyflwynwyd i'n galwad am dystiolaeth. Ystyriodd yr adolygiad p'un a oedd angen ailystyried unrhyw rai o ganfyddiadau adolygiadau 2020. Bu hefyd yn ystyried y sefyllfa yng Nghymru a'r hyn y gallai'r dystiolaeth sydd ar gael ei ddweud wrthym am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau â gweddill y DU, ac felly p'un a ellid cymhwyso casgliadau a luniwyd ar lefel y DU yn hyderus i Gymru.

Er bod tystiolaeth newydd wedi'i chyhoeddi ers 2020, ystyriwyd bod casgliadau adolygiad 2020 wedi aros yn gymharol ddigfnewid a bod cytundeb cyffredinol yn parhau o ran y canlynol:

- Roedd gweithgareddau rheoli a ysgogwyd gan ryddhau adar hela yn tueddu i gael effeithiau ecolegol cadarnhaol dros raddfa tirwedd.
- Arweiniodd gweithredoedd uniongyrchol adar hela a ryddhawyd at effeithiau a ystyriwyd yn gyffredinol yn negyddol ac a oedd yn tueddu i fod ar raddfa leol neu mewn ardal fechan ond a allai ddigwydd ar raddfa ehangach.
